O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

**2015 Rhif 1600 (Cy. 199)**

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2015

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("y Rheoliadau Optegol") sy'n darparu ar gyfer taliadau i'w gwneud drwy system dalebau mewn cysylltiad â'r costau yr eir iddynt gan gategorïau penodol o bersonau mewn cysylltiad â phrofion golwg a chyflenwi, amnewid a thrwsio teclynnau optegol.

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 1 o'r Rheoliadau Optegol er mwyn cyfeirio at gynnydd o 1% yn y ffi ar gyfer prawf golwg y GIG.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1600 (Cy. 199)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Awst 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *10 Awst 2015* |
| *Yn dod i rym* | *31 Awst 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 71, 76(9) 128, 129 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Awst 2015 ond mae'r diwygiadau a nodir yn rheoliad 2 yn cael effaith o 1 Ebrill 2015 ymlaen.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Optegol" ("*the Optical Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**2**).

**Diwygio rheoliad 1 o'r Rheoliadau Optegol**

**2.** Yn rheoliad 1(2) o'r Rheoliadau Optegol (enwi, cychwyn a dehongli), yn y diffiniad o "NHS sight test fee"—

(a) yn lle "£58.29", rhodder "£58.87"; a

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.

(b) yn lle “£21.10”, rhodder “£21.31”.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
4 Awst 2015